OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Rhymni, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyfnewidfa Tredegar, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020

Gwnaed	*15 Ebrill 2020*
Yn dod i rym	*20 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Rhymni, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyfnewidfa Tredegar, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 20 Ebrill 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2020 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A465 Trunk Road (Rhymney Interchange, Caerphilly County Borough & Tredegar Interchange, Blaenau Gwent) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2020

Made	*15 April 2020*
Coming into force	*20 April 2020*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Rhymney Interchange, Caerphilly County Borough & Tredegar Interchange, Blaenau Gwent) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2020 and it comes into force on 20 April 2020.

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 20 Ebrill 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni wrth Gyfnewidfa Rhymni, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyfnewidfa Tredegar, Blaenau Gwent.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd yr arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Ebrill 2020

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads of the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road at Rhymney Interchange, Caerphilly County Borough and Tredegar Interchange, Blaenau Gwent;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means that period commencing at 20:00 hours on 20 April 2020 and ending when the temporary traffic signs have been permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 15 April 2020

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CYFNEWIDFA RHYMNI, BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI A CHYFNEWIDFA TREDEGAR, BLAENAU GWENT) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, wrth Gyfnewidfa Rhymni, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyfnewidfa Tredegar, Blaenau Gwent.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, a phob beiciwr rhag mynd ar y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Rhymni a Chyfnewidfa Tredegar. Bydd y ffyrdd yn cael eu cau fesul cam er mwyn sicrhau na fydd y llwybrau eraill yn gwrthdaro â'i gilydd.

Y llwybr arall tra bo'r ffyrdd ymadael ar gau fydd parhau at y gyfnewidfa nesaf, ymadael a dychwelyd ar y gerbytffordd gyferbyn i ymadael wrth y gyfnewidfa o ddewis.

Y llwybr arall tra bo'r ffyrdd ymuno ar gau fydd ymuno â'r gerbytffordd gyferbyn, mynd at y gyfnewidfa nesaf a dychwelyd ar y gerbytffordd o ddewis.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 20 Ebrill 2020 ac y byddant yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'ch gloch) hyd 24 Ebrill 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

THE A465 TRUNK ROAD (RHYMNEY INTERCHANGE, CAERPHILLY COUNTY BOROUGH & TREDEGAR INTERCHANGE, BLAENAU GWENT) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road at Rhymney Interchange, Caerphilly County Borough and Tredegar Interchange, Blaenau Gwent.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, and cyclists from proceeding on the lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Rhymney Interchange and Tredegar Interchange. The closures will be phased to ensure there is no clash of alternative routes.

The alternative route during closure of the exit slip roads will be to continue to the next interchange, exit and return on the opposite carriageway to exit at the interchange of choice.

The alternative route during closure of the entry slip roads will be to join the opposite carriageway, proceed to the next interchange and return on the carriageway of choice.

The temporary prohibitions are expected to come into force on 20 April 2020 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 24 April 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government